CYNGOR Sir Ddinbych Denbighshire COUNTY COUNCIL

At: Gadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor Archwilio Cymunedau

Dyddiad: Dydd Mawrth, 19 Tachwedd 2013

Rhif Union: 01824 712554

ebost: dcc_admin@denbighshire.gov.uk

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR ARCHWILIO CYMUNEDAU, DYDD LLUN, 25 TACHWEDD 2013** am **9.30 am** yn **SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN**.

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd

**AGENDA**

**RHAN 1 - GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I'R RHAN HON O'R CYFARFOD**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGAN CYSYLLTIAD**

Dylai Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiadau personol neu rai sy'n rhagfarnu gydag unrhyw fater a nodwyd y dylid ei ystyried yn y cyfarfod hwn.

**3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Rhybudd o faterion y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel mater brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Prif Weithredwr / Chief Executive Mohammed Mehmet PhD BSc
Prif Swyddfeydd Y Cyngor/Council Offices, Rhuthun/Ruthin, Sir Ddinbych/Denbighshire LL15 1YN.
Ffôn/Tel (01824) 706234 Ffacs/Fax (01824) 707446

**4 COFNODION** (Tudalennau 5 - 14)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio Cymunedau a gynhaliwyd ar 17 Medi 2013 (copi ynghlwm).

**5 GORFODI PARCIO** (Tudalennau 15 - 30)

Ystyried adroddiad ar y cyd gan y Pennaeth Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol a Phennaeth Tai a Datblygu Cymunedol (copi ynghlwm) i Aelodau edrych ar Strategaeth Gorfodi Parcio'r Cyngor a'r effaith ar Ddatblygu Economaidd.

**9.35 – 10.00**

**6 STRATEGAETH ATAL BAW CŴN** (Tudalennau 31 - 70)

Ystyried adroddiad ar y cyd gan y Swyddog Marchnata, Twristiaeth a Digwyddiadau (Arfordirol) a'r Arweinydd Tîm Cyfathrebu Corfforaethol (copi ynghlwm) i Aelodau adolygu cynnydd yr ymgyrch hyd yma a'r cynlluniau wrth symud ymlaen dros y misoedd nesaf.

**10.00 – 10.30**

**~~~~~~ EGWYL ( 10.30 – 10.40 ) ~~~~~~**

**7 STRATEGAETH RHEOLI RISG LLIFOGYDD DRAFFT** (Tudalennau 71 - 80)

Ystyried adroddiad gan yr Uwch Beiriannydd - Rheoli Perygl Llifogydd (copi ynghlwm) i Aelodau ystyried fersiwn ddrafft derfynol y Strategaeth cyn yr ymgynghoriad cyhoeddus.

**10.40 – 11.10**

**8 RHAGLEN GYFALAF PRIFFYRDD DDRAFFT 2014/15 A'R CYNNYDD AR Y STRATEGAETH DDRAFFT** (Tudalennau 81 - 86)

Ystyried adroddiad ar y cyd gan y Rheolwr Priffyrdd Strategol a'r Rheolwr Adran, Rheoli Rhwydwaith (copi ynghlwm) i'r Aelodau ystyried a chytuno ar y drafft diweddaraf o Raglen Gyfalaf Cynnal a Chadw Priffyrdd yn amodol ar newidiadau pellach yn Grwpiau Ardal yr Aelodau. Hefyd, bod yr aelodau'n nodi'r ddogfen Bolisi ac yn cytuno i adolygu'r canlyniad o'r Gweithgor Strategaeth Priffyrdd.

**11.10 – 11.40**

**9 RHOI PRYDLESI** (Tudalennau 87 - 108)

Ystyried adroddiad ar y cyd gan y Rheolwr Eiddo a'r Rheolwr Prisiad ac Ystadau (copi ynghlwm) i Aelodau archwilio polisi'r Cyngor ar gyfer rhoi Prydlesi, yn enwedig i grwpiau cymunedol.
(Mae Atodiad 1 i'r adroddiad hwn yn ddogfen gyfrinachol)

**11.40 – 12.10**

Prif Weithredwr / Chief Executive Mohammed Mehmet PhD BSc
Prif Swyddfeydd Y Cyngor/Council Offices, Rhuthun/Ruthin, Sir Ddinbych/Denbighshire LL15 1YN.
Ffôn/Tel (01824) 706234 Ffacs/Fax (01824) 707446

**10 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO** (Tudalennau 109 - 124)

Ystyried adroddiad gan Gydlynydd Archwilio (copi ynghlwm) yn gofyn am adolygiad o raglen gwaith i'r dyfodol y pwyllgor a diweddaru'r aelodau ynglŷn â materion perthnasol.

**12.10 – 12.20**

**11 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGOR**

Derbyn y wybodaeth ddiweddaraf gan gynrychiolwyr y Pwyllgor sy'n aelodau o Fyrddau a Grwpiau'r Cyngor.

**12.20 – 12.25**

**RHAN 2 - MATERION CYFRINACHOL - EITEM 9 ATODIAD 1**

Argymhellir, yn unol ag Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod trafod y materion canlynol oherwydd y tebygolrwydd y caiff gwybodaeth eithriedig, fel y diffinnir ym Mharagraff 12 Rhan 4 o Atodlen 12A y Ddeddf, ei datgelu.

**AELODAETH**

**Y Cynghorwyr**

James Davies
Peter Arnold Evans
Carys Guy
Huw Hilditch-Roberts
Rhys Hughes
Win Mullen-James
Bob Murray
Joe Welch
Cefyn Williams
Cheryl Williams
Huw Williams

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned